**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod**

**Noddir gan Siân Gwenllian AS**
**1 Gorffennaf 2022**
**Zoom, 10:00 – 11:00**

***Yn bresennol:***
*Delyth Jewell AS (Cadeirydd)*
*Jane Dodds AS*
*Sioned Williams AS*
*Laura McAllister, y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (Siaradwr)*
*Tomos Evans, Chwarae Teg*
*Wanjiku Ngotho-Mbugua, Bawso*
*Nancy Lidubwi, Bawso*
*Elyn Stephens, Plaid Cymru*
*Abigail Thomas, Plaid Cymru*
*Patience Bentu, Ymarferydd Amrywiaeth*
*Rhianydd Williams, TUC Cymru*
*Sarah Rees, Oxfam Cymru*
*Keira Evans, Trans Aid Cymru*
*Shash Appan, Trans Aid Cymru*
*Eve, Trans Aid Cymru*
*Megan Thomas, Anabledd Cymru*
*Alison Parken, Ysgol Fusnes Caerdydd*
*Ele Hicks, Diverse Cymru*
*Jane Fenton-May, Menywod yn Ewrop (Cymru)*
*Kirsty Fox, Camlas*
*Chloe Rees, Swyddfa Sarah Murphy AS*
*Catherine Fookes, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (WEN Cymru)*
*Jennifer Ramsay, Aelod o Fwrdd WEN Cymru*
*Jessica Laimann, WEN Cymru*

***Ymddiheuriadau:***
*Siân Gwenllian AS*
*Llyr Gruffydd AS*
*Rhian Connick, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched*
*Suzy Davies, Aelod o Fwrdd WEN Cymru*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso, Ymddiheuriadau, Cyflwyniad** – *Cadeirydd*<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb a dywedodd mai diben y cyfarfod oedd clywed gan yr Athro Laura McAllister ynghylch sut mae hawliau menywod, cydraddoldeb rhywiol a'n hymrwymiad i groestoriadedd yn cyd-fynd â'r broses o ddiwygio cyfansoddiadol a sut y gall aelodau gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cysylltiedig. |
| **2** | ***Rôl rhywedd mewn diwygio cyfansoddiadol* - Yr Athro Laura McAllister, Cyd-Gadeirydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**<br><br>Nododd yr Athro McAllister ei bod yn bwysig bod materion o ran rhywedd ac amrywiaeth yn cael eu cynnwys ym mhopeth rydym yn ceisio ei wneud i greu Senedd |

| | |
|---|---|
| | addas at y diben yng Nghymru. Mae ymgorffori hawliau ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn diwygio sefydliadol yn hanfodol gan ei fod yn gwneud y sefydliadau perthnasol yn llai tebygol o fod yn wahaniaethol.<br><br>Mae rhaglen ddiwygio bresennol y Senedd yn gyfle pwysig i arwain y byd ac mae'n hanfodol i gwotâu rhyw gael eu hymgorffori yn hynny. Mae'r Athro McAllister yn falch o weld argymhellion y Panel Arbenigol yn cael eu hailadrodd i raddau helaeth gan y Pwyllgor Bowden, a bod yr argymhellion hyn bellach wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Diben Arbennig. Mae hi'n gwbl gefnogol o'r camau i ehangu'r Senedd i 96 o Aelodau i fynd i'r afael â materion o ran gwaith craffu ac atebolrwydd, gan gynnwys cwotâu rhywedd integredig. Fodd bynnag, roedd dewis system etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig yn destun siom, er bod integreiddio cwotâu i'r system hon yn gymharol syml.<br><br>O ran materion posibl yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol i ddefnyddio cwotâu rhywedd, esboniodd yr Athro McAllister fod cyfle cyfartal yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl tra bod etholiadau wedi'u datganoli. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol o'r mater a bydd unrhyw ddatrysiad yn dibynnu ar ddiben y Bil a'r ffordd y caiff y polisi ei ddehongli, yn ogystal â'r cwestiwn a fyddai'r Goruchaf Lys neu Lywodraeth y DU am herio unrhyw gamau a gymerir yn y maes hwn. Fodd bynnag, dylid mynd ar drywydd deddfwriaeth cwota rhywedd beth bynnag sy'n digwydd, gan fod pethau y gellid eu gwneud i sicrhau nad yw'r gwaith o ddiwygio'r Senedd yn cael ei ohirio gan her gyfreithiol bosibl i ddeddfwriaeth ar gwotâu.<br><br>Hefyd, mae'n rhaid i ni fanteisio ar y cyfle hwn i sicrhau nad yw nodweddion eraill yn cael eu gadael allan wrth inni fwrw ymlaen â'r gwaith o ddiwygio'r Senedd, ac mae'n rhaid i'r pleidiau ddeall bod yn rhaid iddynt gymryd amrywiaeth a chyfleoedd cyfartal ymhlith cynrychiolwyr o ddifrif ar sail wirfoddol yn ogystal â deddfwriaethol. Mae'r pethau eraill y dylid eu gwneud yn cynnwys gwella'r broses o gasglu data am ymgeiswyr - nid oes unrhyw gefnogaeth yn dod o gyfeiriad Llywodraeth y DU yn y maes hwn ar hyn o bryd, ond dylem barhau i ymgyrchu oherwydd mae angen y dystiolaeth arnom i ddangos pa mor anodd yw hi i fenywod a grwpiau ymylol gyrraedd swyddi etholedig. Mae galluogi aelodau etholedig i rannu swyddi hefyd yn bwysig. Mae'n rhaid gwneud mwy o waith yn y maes hwn, oherwydd nid yw'r anawsterau cysylltiedig yn anorchfygol.<br><br>Wrth drafod gwaith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, dywedodd yr Athro McAllister bod y Comisiwn wrthi'n cynnal ei ymarfer ymgysylltu cyntaf, ac y byddai'r gwaith hwn yn dod i ben erbyn diwedd mis Gorffennaf. Byddai rhagor o gyfleoedd ymgysylltu yn ddiweddarach yn y broses, ond anogwyd yn gryf ymgysylltu cynnar o safbwynt rhywedd ac amrywiaeth. Mae'r Athro McAllister a Chyd-gadeirydd arall y Comisiwn yn awyddus i sicrhau bod rhywedd ac amrywiaeth yn cael eu prif ffrydio i'r holl opsiynau cyfansoddiadol sy'n cael eu trafod a bod yr holl |

| | |
|---|---|
| | sefyllfaoedd posibl, o'r sefyllfa bresennol i annibyniaeth, yn cael eu gwerthuso o safbwynt rhywedd ac amrywiaeth.<br><br>Mae'r Comisiwn ar fin lansio rhaglen o grantiau bach ar gyfer cydgynhyrchu (gwerth tua £5,000) ac mae'n gobeithio y byddai sefydliadau fel y rhai sy'n bresennol yng nghyfarfod y grŵp trawsbleidiol yn ystyried gwneud cais i hwyluso sgyrsiau â'r bobl y maent yn eu cynrychioli nad ydynt o bosibl yn bwriadu ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad. |
| **3** | **Trafodaeth a chwestiynau gan y rhai a oedd yn bresennol**<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro McAllister am y trosolwg defnyddiol o'r gwaith ar ddiwygio'r Senedd a gwaith y Comisiwn, cyn gwahodd sylwadau gan aelodau'r grŵp trawsbleidiol. Roedd sylwadau a chwestiynau niferus yr aelodau yn cynnwys y canlynol:<br><br>Cyfeiriodd Patience Bentu at ddirymu penderfyniad Roe yn erbyn Wade yn yr Unol Daleithiau yn ddiweddar, a gofynnodd sut y byddai datblygiadau fel hyn yn effeithio ar ddiwygiadau cyfansoddiadol yng Nghymru. Dywedodd yr Athro McAllister y byddai'r Comisiwn yn edrych ar ddatganoli cyfiawnder, plismona, carchardai, y gwasanaeth prawf a gweinyddu cyfiawnder. Mae'n rhaid inni sicrhau bod menywod yn cael eu cynrychioli'n briodol ym mhob agwedd ar system farnwrol Cymru. Mae'n rhaid ymgorffori dimensiwn cydraddoldeb yn y system gyfiawnder yng Nghymru pe bai'n cael ei datganoli, ac mae'n anodd gweld sut y gellid parhau i wrthwynebu datganoli cyfiawnder oherwydd ei fod yn fater mor sylfaenol.<br><br>Gofynnodd Jessica Laimann pa fath o dystiolaeth gan sefydliadau fyddai fwyaf defnyddiol ar gyfer yr ymgynghoriad. Er enghraifft, a allent ddarparu tystiolaeth ar eu hymgyrchoedd dros bolisïau blaengar yng Nghymru, gyda chefnogaeth eang yn y Senedd, ond sydd hefyd wedi bod yn destun pryderon ynghylch cymhwysedd datganoledig, fel cwotâu rhywedd ac amrywiaeth, rhannu swyddi neu ddeddfwriaeth flaengar ar hunaniaeth rhywedd? Dywedodd yr Athro McAllister y byddai gwybodaeth o'r fath yn ddefnyddiol gan fod y Comisiwn yn canolbwyntio ar wneud y cysylltiadau rhwng gwaith sefydliadau cydraddoldeb ac amrywiaeth yng Nghymru a'r setliad datganoli presennol i nodi lle'r oedd y gwendidau.<br><br>Gofynnodd Jane Dodds AS pa sicrwydd y mae'r Comisiwn wedi'i gael y byddai ei argymhellion yn cael eu derbyn. Dywedodd yr Athro McAllister fod y Comisiwn yn wahanol i bwyllgorau'r Senedd oherwydd ei fod yn gwbl annibynnol. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth dros ei waith, mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob plaid ac mae effaith cyflawni polisïau yn bwysig iawn. Er na allant warantu y bydd pobl yn gwrando ar yr argymhellion, mae'n hollbwysig parhau'n gadarnhaol a "chadw llygad ar y bêl" - gall Cymru fod ar flaen y gad wrth lunio ei dyfodol cyfansoddiadol. Gall y |

| | |
|---|---|
| | sefyllfa newid yn gyflym iawn ac mae'n rhaid i ni fod yn barod. Bydd newid yn digwydd yn y pen draw, yn union fel y gwnaeth wrth ddiwygio'r Senedd.<br><br>Gofynnodd Rhianydd Williams sut y gallwn sicrhau bod ein gwaith cyfansoddiadol yn addas ar gyfer y dyfodol, heb ddibynnu ar i ba raddau y mae Llywodraethau'r dyfodol yn ymrwymo i ddatganoli. Gofynnodd hefyd sut y gallwn ddiogelu ymgeiswyr o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd i'w hamddiffyn rhag aflonyddu a chamdriniaeth. Bu diffyg gorfodi mewn gweithleoedd mewn perthynas â deddfwriaeth gadarnhaol fel dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Ymatebodd yr Athro McAllister fod yn rhaid casglu rhagor o dystiolaeth ar hawliau cyflogaeth, a bod datblygiadau diweddar o ran streiciau yn dangos y broblem allweddol sy'n wynebu Cymru, o gofio bod gennym systemau cyfansoddiadol cymharol wan. Fod bynnag, mae'n rhaid hefyd newid agweddau ac ymddygiad i ddangos parch at Lywodraethau a Seneddau etholedig a'u trin yn gyfartal. Mae'n rhaid ymgorffori gwaith craffu, cydweithredu ac ymgynghori fel egwyddorion da ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol a bydd lle amlwg i'r mater hwn yn nhrafodaethau'r Comisiwn. Ychwanegodd Sarah Rees nad oes unrhyw gymorth o gwbl ar gael i ymgeiswyr sy'n wynebu cam-drin ac aflonyddu ar-lein, hyd yn oed pan mae hyn yn rhoi eu teuluoedd a'u plant mewn perygl.<br><br>Awgrymodd Catherine Fookes y gallai fod yn ddefnyddiol nodi safbwynt y grŵp trawsbleidiol drwy gyflwyno ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad. Roedd yr aelodau eraill yn cytuno â hyn.<br><br>Tynnodd Abigail Thomas sylw at bwysigrwydd data am amrywiaeth, gan ychwanegu y dylai cyhoeddi'r data hyn fod yn orfodol a bod yn rhaid i bleidiau gael strategaethau amrywiaeth mandadol yn eu lle.<br><br>Pwysleisiodd Alison Parken yr angen am dystiolaeth ar gyfyngiadau'r setliad datganoli presennol, gan gynnwys y materion rydym yn galw iddynt gael eu datganoli. Er enghraifft, mae diffyg rheolaeth dros ddeddfwriaeth ynghylch lles, cyflogaeth a chydraddoldeb yn rhwystr gwirioneddol sy'n ein hatal rhag gwneud cynnydd dros fenywod yng Nghymru. Nododd y Cadeirydd bwysigrwydd y ffordd y mae polisïau yn effeithio ar ein bywydau o ddydd i ddydd, fel y camau i lastwreiddio'r Ddeddf Hawliau Dynol.<br><br>Dywedodd Sioned Williams AS nad oedd digon o amser ac ystyriaeth wedi'u rhoi i arferion yn y gweithle fel rhannu swydd, a bod yn rhaid i wleidyddiaeth fod yn ymatebol i fenywod a'u cyfrifoldebau. Hefyd, mae'n bwysig deall cwotâu rhywedd fel terfyn isaf ac nid nenfwd.<br><br>Pwysleisiodd Megan Thomas rôl y pwysau ariannol y mae pobl yn eu hwynebu wrth sefyll am swydd etholedig. Dangosodd profiad Anabledd Cymru gyda'r cynllun Mynediad at Swydd Etholedig fod cyfran sylweddol o'r ymgeiswyr yn fenywod anabl, |

| | |
|---|---|
| | heb o reidrwydd dargedu'r grwpiau hyn yn benodol. Mae hyn yn dangos bod rhwystrau ariannol yn arbennig o berthnasol i fenywod sy'n wynebu gwahaniaethu croestoriadol. Gallai cyfuniad o gwotâu a chymorth ariannol penodol - er enghraifft, ar gyfer gofal plant a threuliau sy'n gysylltiedig â namau - gael effaith fawr ar gynrychiolaeth yn y Senedd.<br><br>Awgrymodd y Cadeirydd fod cysylltiad rhwng y pwyntiau a wnaed ar ddiwygio'r Senedd a diwygio cyfansoddiadol. Mae arnom angen mwy o bwerau datganoledig ac amrywiaeth i sicrhau y gellir craffu'n ddigonol ar y pwerau hynny sydd wedi'u datganoli.<br><br>Tynnodd Sarah Rees sylw at yr ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud ar dlodi plant, sy'n gysylltiedig â'r materion sy'n effeithio ar fenywod a materion cydraddoldeb, ac sy'n parhau'n broblem fawr yng Nghymru. Ychwanegodd Keira Evans fod tlodi yn broblem enfawr, yn enwedig i fenywod traws sy'n gorfod talu am feddyginiaeth a llawdriniaeth nad yw'r GIG bob amser yn talu amdanynt. Un o'r prif resymau am hyn oedd bod y cymhwysedd dros les wedi'i gadw'n ôl gan San Steffan. Mae'r ffaith bod Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu i mewn i gyfrif banc un aelod o aelwyd yn unig yn achosi problemau mawr hefyd. Mae hyn yn cadw pobl o leiafrifoedd rhywedd mewn sefyllfa beryglus iawn. Pwysleisiodd hefyd faterion sy'n gysylltiedig â phlismona a ffoaduriaid. Mae gan Gymru ei heddluoedd ei hun ond nid ydym bob amser yn gallu dewis sut y maent yn cael eu rheoli. Ni all Cymru fod yn genedl noddfa go iawn tra bod San Steffan yn gyfrifol am y llwybrau ceisio lloches.<br><br>Dywedodd Patience Bentu ei bod yn hollbwysig meddwl am fodelau a strwythurau a fydd yn arwain at gydraddoldeb. Un peth sydd wedi llwyddo'n rhyngwladol yw'r system gwotâu, ac nid yw'n ymddangos bod unrhyw opsiwn amgen sy'n gredadwy ar gael ar hyn o bryd. Awgrymodd y gallai'r grŵp trawsbleidiol wahodd arweinwyr y pleidiau i ateb y cwestiwn hwn unwaith eto: os nad ydynt yn cefnogi cwotâu, pa ddatrysiadau amgen sydd ganddynt i'w cynnig? |
| **4** | **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru) - (Jackie Jones)**<br><br>Rhoddodd yr Athro Jackie Jones y wybodaeth ddiweddaraf drwy fideo, gan nodi'r materion a ganlyn:<br>• Mae'r digwyddiadau o ddiddordeb sydd ar y gorwel yn cynnwys Cynhadledd Cyflog Anghyfartal ym Mrwsel ar 3 a 4 Tachwedd, yn ogystal â Digwyddiad Adennill Eich Gofod yn ystod Euro Pride yn Serbia rhwng 14 a 18 Medi;<br>• pasiodd Senedd Ewrop benderfyniad ar effaith y rhyfel yn Wcráin ar fenywod ac ar fygythiadau byd-eang i'r hawl i erthyliad;<br>• roedd y Pwyllgor ar Hawliau Menywod a Chydraddoldeb Rhywiol wedi cynnal pleidlais gychwynnol ar gyfarwyddeb ar fenywod ar fyrddau cwmnïau, a oedd bellach yn mynd yn ei blaen ar ôl iddi gael ei rhwystro am nifer o flynyddoedd, gan gynnwys gan Lywodraeth y DU; |

| | |
|---|---|
| | • cyhoeddiadau newydd: Cynllun gwrth-fasnachu mewn perthynas â'r bobl sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin; adroddiadau newydd ar fenywod mewn tlodi ac ar wahaniaethu croestoriadol, a fydd yn greiddiol i waith deddfwriaethol a pholisi yn yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol; a map trywydd ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywiol;<br>• y Weriniaeth Tsiec sydd bellach yn llywyddu Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, gan gymryd yr awenau oddi wrth Ffrainc;<br>• mae Wcráin a Moldova bellach wedi gwneud ceisiadau i ymuno â'r UE, a fydd yn arwyddocaol o ran polisïau cydraddoldeb rhywiol a masnachu mewn pobl;<br>• mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig cyfarwyddeb ddrafft ar ddod â thrais yn erbyn menywod a merched i ben;<br>• mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bod wedi cadarnhau Confensiwn Istanbwl ym mis Gorffennaf, ond nodwyd amheuon ynghylch hawliau menywod mudol;<br>• 2022 oedd Blwyddyn Ewropeaidd Ieuenctid, gyda sawl digwyddiad yn cael ei gynnal, gan gynnwys digwyddiad Cymru Dros Ewrop ar 30 Mehefin ar raglen Erasmus; ac<br>• yng ngoleuni'r gwariant cynyddol ar filitareiddio, mae'n rhaid cadw llygad barcud ar gydraddoldeb rhywiol ac effaith rhyfel ar fenywod a merched yn yr Undeb Ewropeaidd ac yn y DU. |
| 5 | **Unrhyw fater arall**<br><br>Awgrymwyd y gallai'r cyfarfod nesaf drafod cyllidebu ar sail rhyw. Cytunwyd hyn gan yr aelodau. |
| 6 | *Cloi* |